OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3026 (Cy. 194 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *9 Tachwedd 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 66(8) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

### Diwygio

**2.** Yn rheoliad 3(2)(c) o Reoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) 1999(**3**) (cyflawni dyletswyddau'r corff llywodraethu), yn gymaint â'i fod yn ymwneud â Chymru, rhoddir "50" yn lle "30".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)).

*John Marek*

9 Tachwedd 2000 — Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.31.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/1868.
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) 1999 mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Os byddai disgybl mewn ysgol o'r fath, yn sgil gwaharddiad, yn cael ei wahardd am gyfnod penodedig o fwy na phump ond heb fod yn fwy na 15 diwrnod ysgol o ran cyfanswm mewn unrhyw un tymor, mae Rheoliad 2 yn darparu bod rhaid fel rheol i'r corff llywodraethu gymryd pob un o'r camau y cyfeirir atynt yn adran 66(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 heb fod yn hwyrach na 50 diwrnod ysgol ar ôl cael hysbysiad o'r gwaharddiad (yn hytrach na 30 diwrnod ysgol fel o'r blaen).